# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 30 IONAWR 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd) **(Yn y Siambr)**

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K. Davies | S.M. Allen | P. Cooper | T.A.J. Davies |
| T.M. Higgins | J.D. James | N. Lewis | B.D.J. Phillips |
| G.B. Thomas | | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

D.C. Evans S. Godfrey-Coles

**Hefyd yn bresennol:**

- Cynghorydd A. Davies, Y Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio **(Yn y Siambr);**
- Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd **(Yn y Siambr);**
- Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth **(Yn y Siambr).**

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
D.W. John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol
B. Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir
R. James, Cyfrifydd Grŵp
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Gwledig
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell:- 10:00yb - 12:38yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| S. Godfrey-Coles | 6. Ymgynghori ynghylch Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27 | Mae ei phartner yn gweithio yn adran Addysg y Cyngor. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. **ESBONIAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad Rheoli Plâu.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol i reoli problem llygod mawr mewn carthffosydd, cadarnhaodd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'r mater hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o ddatblygiad yr achos busnes yn dilyn trafodaethau gyda Dŵr Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**4.1 derbyn y dyddiad diwygiedig ar gyfer yr adroddiad Rheoli Plâu;**
**4.2 nodi'r esboniad dros beidio â'i gyflwyno.**

5. **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2023, mewn perthynas â gwasanaethau dan orchwyl y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai £1.957m oedd y gorwariant net amcangyfrifedig, a oedd yn cynnwys £700k oherwydd bod y dyfarniad cyflog gwirioneddol yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer.

Roedd yr is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn rhagweld gorwariant o fwy na miliwn o bunnoedd am y flwyddyn. Y prif amrywiannau oedd £300k oherwydd difrod storm i briffyrdd, colli incwm ar y Gwasanaethau Parcio o £277k a gorwariant o £908k ar Gludiant Ysgol.

Roedd yr is-adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff yn rhagweld gorwariant o £664k o ganlyniad i bwysau o £775k achos costau cynyddol cyflwyno cam interim y strategaeth wastraff, oherwydd gorfod rhoi mesurau wrth gefn ar waith.

Adroddwyd wrth gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer 2023/24 fel yr oeddent yn Atodiad G i'r adroddiad, rhagwelwyd cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £1.3m yn 2023/24, a fyddai £318k yn is na'r targed.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y Gwasanaethau Gwastraff o fewn y Prif Amrywiannau - Atodiad B yr adroddiad. Gofynnwyd am eglurhad ar y sylw 'Mae Alldro yn cynnwys tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn' mewn perthynas â'r amrywiad o £571k. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod hyn o ganlyniad i newid y dull casglu gwastraff tuag at drefn o gasglu wrth ymyl y ffordd. Ar hyn o bryd, roedd cerbydau ychwanegol yn casglu'r gwydr o ymyl y ffordd, gan arwain at gostau ychwanegol dros dro. Er mwyn rheoli costau, roedd rhywfaint o'r costau'n cael eu talu drwy dynnu cronfeydd wrth gefn i lawr.

- Mynegwyd pryder ynghylch effaith gwasanaethau pe na bai'r swyddi gwag yn cael eu llenwi. Dywedwyd er bod cynigion i arbed arian drwy beidio â llenwi swyddi gwag, ynghyd â'r rhewi presennol ar recriwtio, fod yr adroddiad yn nodi tanwariant mewn cysylltiad â swyddi gwag amrywiol gan gynnwys Rheoli Sŵn fel enghraifft oedd yn Ddyletswydd Statudol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod cyllid llawn yn cael ei ddarparu ar gyfer pob swydd oedd yn rhan o strwythur staffio'r Cyngor. Fodd bynnag, o ran rhai sy'n gadael a mamolaeth, mae natur y broses recriwtio, sy'n amrywio o ran hyd, yn creu tanwariant cyflog sydd wedyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad monitro'r gyllideb. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod cyflwyno'r drefn o rewi recriwtio yn adlewyrchu difrifoldeb sefyllfa'r gyllideb a bod y cam hwn wedi'i gymryd i osgoi camau fel diswyddiadau.

- Cyfeiriwyd at Atodiad D yr adroddiad - prif amrywiannau Adran/Cynlluniau. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch y sylwadau a briodolir i amrywiannau 'Llithro i flynyddoedd y dyfodol', rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd yr arian ar gyfer cyllidebau cyfalaf bob amser yn cyd-fynd â phennu'r gyllideb flynyddol, ac oherwydd hyn byddai'n aml yn llithro i'r flwyddyn ganlynol.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sylw 'angen refeniw a chyfraniad CSC' ar gyfer yr amrywiant 11k a briodolir i Ddiogelu'r Arfordir a nodir ar Atodiad D. Eglurodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod yr amrywiant o 11k i ariannu hyfforddiant ym maes diogelu'r arfordir, ond adroddwyd bod £268k ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oddi wrth Lywodraeth Cymru a fyddai'n gwrthbwyso'r amcanestyniad cyllido.

- Cyfeiriwyd at Fynediad i Gefn Gwlad o dan adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Atodiad G(ii) Arbedion ar Darged. O ran y sylw ynghylch 'rhoi'r gorau i glirio dewisol gan gontractwyr', gofynnwyd a oedd dulliau gorfodi addas yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod tirfeddianwyr yn clirio llystyfiant sy'n gordyfu? Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol y byddai hysbysiadau gorfodi yn parhau i gael eu cyflwyno i dirfeddianwyr lle bo angen, a byddai cost unrhyw waith a wnaed gan y Cyngor yn cael ei hadfer wrth y tirfeddiannwr.

- O ran amcanion newid hinsawdd y Cyngor, gofynnwyd a oedd refeniw ychwanegol yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i gyrraedd targedau'r Cyngor? Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod cyllid yn cael ei dderbyn i helpu i gyflwyno cerbydau trydan a gwella'r modd roedd adeiladau wedi'u hinswleiddio/gwresogi. Darparwyd cadarnhad y byddai cyllid pellach yn cael ei geisio o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad sero net a wnaed gan y Cyngor.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr arian a briodolwyd i Lwybr Beicio Dyffryn Tywi ac amseroldeb y gwariant, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith fod y proffil ariannu wedi'i ymestyn a'i gymeradwyo hyd at fis Mawrth 2025.

- Cyfeiriwyd at Atodiad G(iv) yr adroddiad - Y Gwasanaethau Parcio. Dywedodd y sylw fod 'y gwasanaethau'n dangos gorwariant o £375k ar adroddiad monitro cyllideb mis Awst oherwydd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi'. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod effaith ddifrifol o hyd ar y sector manwerthu ac incwm o feysydd parcio yn dilyn pandemig Covid, pryd trodd cynifer o bobl at siopa ar-lein gan arwain at gwymp sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi. Adroddwyd bod y cynnydd o 5% yn llai na'r gyfradd chwyddiant bresennol o 6.7%, a'i bod yn rhatach parcio ym meysydd parcio'r Cyngor na'r rheiny oedd mewn dwylo preifat. Yn ogystal, dywedwyd bod meysydd parcio'r Cyngor yn costio £600k y flwyddyn mewn trethi ac ardrethi annomestig, a delir i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd sicrwydd bod sylw'n cael ei roi i fesurau eraill er mwyn cynyddu ymwelwyr yng nghanol trefi Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD bod Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 yn cael ei dderbyn.**

## 6. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2024/25 TAN 2026/27

[Sylwer: Bu i'r Cynghorydd S. Godfrey-Coles ddatgan budd personol yn yr eitem hon. Arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2024/25 i 2026/27, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet at ddibenion ymgynghori yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2024. Roedd yr adroddiad yn darparu rhagolwg i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/2025, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/2027, yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant ac yn ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau wrth y Pwyllgor, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod y setliad amodol a gyhoeddwyd yn cynrychioli cynnydd cyfartalog o 3.1% ledled Cymru ar setliad 2023/24, fod cynnydd Sir Gaerfyrddin wedi bod yn 3.3% (£11.0m) gan felly gymryd y Cyllid Allanol Cyfun i £349.441m ar gyfer 2024/25. Er bod y setliad yn sylweddol uwch na'r ffigwr dangosol cychwynnol, sef cynnydd o 3.4%, ac yn darparu tua £15.5m yn fwy na rhagdybiaeth wreiddiol y Cyngor, roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod na fyddai'r ffigwr cynyddol yn ddigonol o hyd i ymdopi â'r pwysau chwyddiant oedd yn wynebu cynghorau, dyfarniadau cyflog, a'r cynnydd mewn prisiau tanwydd, ac roedd penderfyniadau anodd i'w gwneud.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:

- **Atodiad A(i) –** Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd**;**
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer y Gwasanaeth Lle a Seilwaith;
- **Atodiad B –** Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd**;**
- **Atodiad C –** Crynhoad Taliadau ar gyfer y Gwasanaethau Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd**.**

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn dangos sefyllfa ddigynsail ac yn amlygu difrifoldeb y sefyllfa lle'r oedd yn mynd yn fwyfwy anodd dod o hyd i feysydd i wneud arbedion ynddynt heb effeithio ar wasanaethau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol mai dyma'r tro cyntaf yn ei yrfa iddo adrodd cyllideb ddrafft anghytbwys.

- Mynegwyd pryderon go ddifrifol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cynnal a Chadw Priffyrdd, lle nodwyd arbediad effeithlonrwydd o £100,000 drwy leihau gwaith gosod wyneb ffyrdd. Roedd y Pwyllgor wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Lywodraeth Cymru i fynegi ei bryderon ynghylch y diffyg cyllid i gynnal ffyrdd Sir Gaerfyrddin, ac roedd y cynnig yn aberth ychwanegol o ran cynnal y rhwydwaith ffyrdd.

- Mewn ymateb i bryder a godwyd mewn perthynas â'r cynnig i roi'r gorau i sgubo mecanyddol yn rheolaidd ar ffyrdd gwledig, a dim ond gwneud hynny ar sail adweithiol, dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith fod draenio yn allweddol o ran datrys llawer o faterion

- Codwyd nifer o bryderon ynghylch y cynigion i wneud arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â'r meysydd canlynol:-
  - Gosod wyneb ffyrdd
  - Gwneud gwaith sgubo mecanyddol ar ffyrdd gwledig ar sail adweithiol yn hytrach nag yn rheolaidd
  - Cyflwr ffyrdd yn dirywio

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith mai pwrpas gosod wyneb ar ffyrdd oedd ymyrryd mewn modd amserol i ymestyn oes strwythur y ffordd. Cydnabuwyd, yn anffodus, nad oedd cyfyngiadau presennol y gyllideb yn caniatáu rheoli asedau yn y tymor hir. Ar hyn o bryd, o fewn y gyllideb gyfyngedig, roedd rhaglen o osod wyneb ffyrdd ar waith a oedd yn cael ei blaenoriaethu yn ôl eu cyflwr a beth oedd y gyllideb yn ei ganiatáu. O ran y drefn arolygu ynglŷn â thyllau yn y ffordd, mewn egwyddor y peth diogelaf fyddai arolygu, cofnodi ac atgyweirio tyllau'n briodol. Yn ogystal, pwysleisiwyd er bod draenio yn allweddol wrth ddatrys llawer o broblemau, byddai difrod yn cael ei reoli trwy systemau arolygu arferol a dulliau adrodd a byddai'r dull atgyweirio yn seiliedig ar ddifrifoldeb y difrod ac yn cael ei flaenoriaethu yn unol â hynny.

  Pe bai'r Pwyllgor yn cefnogi'r arbedion effeithlonrwydd hyn, mynegwyd pryder y byddai'n niweidiol i ddefnyddwyr ffyrdd ac y gallai Aelodau fod yn atebol am hynny o bosibl. Gan ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fyddai hynny'n y pen draw. Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa, hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor y byddai'r Aelod Cabinet dros Adnoddau yn cynnig codi'r £600k presennol a neilltuwyd i gynnal a chadw'r priffyrdd i £2m, ar gyfer rhoi sylw i'r ffyrdd oedd yn y cyflwr mwyaf difrifol.

- Cyfeiriwyd at godi am barcio ym meysydd parcio y sir a oedd yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon y gallai cyflwyno taliadau mewn meysydd parcio oedd am ddim gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith fod adolygiad ar y gweill a fyddai'n ystyried meysydd parcio am ddim ac effaith cyflwyno taliadau parcio ar yr ardal gyfagos. Byddai adroddiad terfynol yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Craffu maes o law. Dywedwyd bod y taliadau ym meysydd parcio Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhatach na'r rhai mewn Awdurdodau cyfagos.

  Cynigiwyd bod y Cabinet, fel rhan o'r ymgynghoriad, yn ystyried bod y cynnig taliadau parcio yn cael ei adolygu yn seiliedig ar y rhesymau dros ddarpariaeth parcio am ddim mewn ardaloedd unigol. Eiliwyd y cynnig hwn.

- Cyfeiriwyd at y cynnig na fyddai dysgwyr 16 i 18 oed sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg bellach yn cael cludiant am ddim, a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid iddynt wneud eu trefniadau eu hunain. Mynegwyd pryder cryf y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith niweidiol ar allu'r grŵp oedran i fynychu'r coleg, gan effeithio o bosibl ar eu cyfleoedd bywyd. Eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol mai'r bwriad oedd cyflwyno'r cynnig hwn yn 2025/26, ac yn y cyfamser byddai ymarfer cwmpasu llawn yn cael ei gynnal a gellid cyflwyno adroddiad ar ôl ei gwblhau.

  Felly, cynigiwyd bod y Cabinet yn ailystyried yr arbediad effeithlonrwydd arfaethedig i gael gwared ar y ddarpariaeth cludiant am ddim i ddysgwyr 16 i 18 oed sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg. Eiliwyd y cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 derbyn Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27;**

**6.2 derbyn y cynigion ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd fel y nodwyd yn Atodiad A(i) ar yr amod bod y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad gan ganolbwyntio ar y canlynol:-**
- **Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gynnal a chadw priffyrdd;**
- **Ailystyried ac adolygu cyflwyno taliadau meysydd parcio yn seiliedig ar y rhesymeg dros ddarparu lle parcio am ddim mewn ardaloedd unigol;**
- **Ailystyried y cynnig i roi'r gorau i gludiant i'r ysgol/coleg am ddim i bobl ifanc 16 i 18 oed;**

**6.3 bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Lle a Seilwaith, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn.**

## 7. BLAENGYNLLUN DEDDF YR AMGYLCHEDD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN IONAWR 2023 - RHAGFYR 2025

Cafodd y Pwyllgor Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd y Cyngor Ionawr 2023 - Rhagfyr 2025 i'w ystyried. Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn darparu i'r Aelodau wybodaeth am gyflawni'r cynllun.

Roedd y cynllun yn cynnwys camau a fyddai'n cael eu cyflawni a'u hadrodd amdanynt gan sawl maes gwasanaeth, crynhowyd y camau hyn yn Atodiad A a atodwyd i'r adroddiad.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y sylw 'i gyflwyno arferion mwy cynaliadwy ar ffermydd Cyngor Sir Caerfyrddin', a nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor yn 2019 i ddatgan argyfwng hinsawdd ynghyd â phenderfyniad y Cyngor yn 2022 i ofyn i'r Cabinet ddatgan argyfwng natur, fod y Cabinet wedi llunio Panel Argyfwng Hinsawdd a Natur Trawsbleidiol. Cyd-fynd â dyheadau bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig a elwir yn Ddatganiad Caeredin.

- Dywedwyd bod y *Collins Concise Dictionary* yn nodi mai'r diffiniad o '*Sustainable'* oedd - y gallu i barhau dros gyfnod o amser. Gyda hyn mewn golwg, dywedwyd na fyddai'r ffermydd, drwy fod yn rhy gyfyngedig, yn hyfyw ar gyfer y dyfodol, ac felly cynghorwyd bod y Cabinet yn ystyried y term cynaliadwyedd, nid yn unig ar gyfer natur ond hefyd i alluogi ffermydd i gynhyrchu cynhyrchion bwyd mewn modd cynaliadwy. Gan ymateb i hyn, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Ddatgarboneiddio, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd fod "cynaliadwyedd" yn y cyd-destun hwn yn berthnasol i Egwyddor Cynaliadwyedd, a bod hynny wedi'i ymgorffori o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

- Cyfeiriwyd at y cynnydd ar Eiddo a oedd yn nodi 'gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru'. Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch defnyddio ymgynghorwyr, rhoddodd y Rheolwr Cadwraeth Gwledig gefndir i'r ffordd roedd y Cyngor wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru a llawer o sefydliadau amgylcheddol eraill. Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn cael swm bach o arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwaith yr oedd partneriaid yn ei wneud yn Sir Gaerfyrddin. Bu Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn llwyddiannus yn y cais ac mae'n gweithio gyda nifer o ffermydd i gynorthwyo gyda'r llygredd sy'n rhedeg i ffwrdd o iardiau fferm. Datblygwyd astudiaethau achos drwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Afonydd a defnyddio eu harbenigedd.

**PENDERFYNWYD derbyn Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin Ionawr 2023 – Rhagfyr 2025.**

## 8. STRATEGAETH LEOL RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn darparu i'r Aelodau wybodaeth fanwl am ddull y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin.

Eglurodd yr adroddiad sut y byddai llifogydd yn cael eu rheoli ar draws Sir Gaerfyrddin, yn unol ag amcanion, mesurau, a pholisïau lleol a'n strategaethau corfforaethol a chenedlaethol. Roedd y strategaeth hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth gefndirol am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar lefel leol a chenedlaethol.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Wrth gymeradwyo'r manylion a ddarparwyd yn yr adroddiad, dywedwyd y byddai problemau llifogydd yn parhau yn anffodus pe bai'r un hen ddulliau ymyrraeth yn dal i gael eu defnyddio. Mae angen ymchwilio i ddulliau arloesol newydd a'u cyflwyno i leihau'r problemau llifogydd a wynebir o achos newid hinsawdd a chodi rhagor o adeiladau. Y teimlad oedd dylid rhoi pwysau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru i ystyried newid defnydd tir lle roedd glawiad ar ei drymaf. Cynigiwyd felly bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor yn egluro'r pryderon am lifogydd ac yn dweud bod angen newid defnydd tir i reoli'r problemau llifogydd presennol.

- Dywedwyd y dylai'r Cabinet ystyried sicrhau bod rhagor o arian ar gael ar gyfer y maes hwn.

- Eglurodd y Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir, mewn ymateb i ymholiad, fod y Swyddog Dyletswydd Digwyddiadau Llifogydd (FIDO) fel rhan o rota wythnosol, yn monitro'r tywydd bob dydd, yn enwedig glawiad a'r llanw. Mae pryderon yn cael eu hadrodd i'r rheolwyr sy'n gweithredu yn unol â hynny.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch glanhawyr cwlfer, eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod glanhawyr cwlfer a systemau jet ar hyn o bryd yn cael eu rhannu rhwng depos yn Sir Gaerfyrddin a'u bod yn cael eu defnyddio ar sail blaenoriaeth yn amodol ar adnoddau.

- Gofynnwyd pa mor ragweithiol oedd y tîm o ran cynnig llifddorau i'r rhai a allai fod eu hangen mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd? Eglurodd y Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir fod 'ffeiriau llifogydd' yn cael eu cynnal mewn ardaloedd o angen. Awgrymwyd bod llythyrau a thaflenni yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i aelwydydd yn esbonio beth gallent ei wneud i ddiogelu eu heiddo rhag llifogydd.

- Dywedwyd bod unrhyw falurion a gâi eu clirio o ddraeniau ar hyn o bryd yn cael eu gadael ar y palmant/ochr y ffordd yn hytrach na'u cludo i ffwrdd. Wedyn roedd yn bosibl gallai'r malurion gael eu golchi yn ôl i'r system ddraenio yn ystod y glawiad trwm nesaf. Dywedwyd bod yr arfer hwn yn wastraff amser ac adnoddau. Awgrymwyd felly bod malurion yn cael eu symud ymaith ar ôl clirio draeniau. Derbyniodd swyddogion y pwynt a godwyd a byddent yn ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

**8.1 derbyn y Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.**

**8.2 anfon llythyr i Lywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon y Pwyllgor am gyllid ar gyfer llifogydd yn y dyfodol i alluogi dulliau arloesol ar gyfer ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd.**

9. **EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 11 Mawrth 2024 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Mawrth 2024.**

10. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 RHAGFYR 2024**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2024 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |